DEPARTMENT OF ENERGY & CLIMATE CHANGE

# Gweithredu newidiadau i Gonfensiynau Paris a Brwsel ar atebolrwydd trydydd parti niwclear

# Ymgynghoriad Cyhoeddus

**Crynodeb gweithredol**

Ionawr 2011

# Gweithredu newidiadau i Gonfensiynau Paris a Brwsel ar atebolrwydd trydydd parti niwclear - Ymgynghoriad Cyhoeddus

## Crynodeb gweithredol

## Diben yr ymgynghoriad

1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi cynigion y Llywodraeth ar gyfer gweithredu Protocolau 2004 sy'n diwygio Confensiwn Paris[1] ar atebolrwydd trydydd parti niwclear a Chonfensiwn Atodol Brwsel ("y Confensiynau").

1.2 Mae'n cynnwys:

- y papur ymgynghori hwn
- Gorchymyn drafft, gyda'r diwygiadau arfaethedig i Ddeddf Gosodiadau Niwclear 1965 ("Deddf 1965") i weithredu newidiadau'r Confensiynau (Atodiad 1)
- Asesiad Effaith (Atodiad 2).

## Gweithredu

1.3 Er mwyn i'r DU allu cadarnhau'r diwygiadau i'r Confensiynau, mae angen i ni weithredu'r newidiadau yng nghyfraith y DU. Mae Adran 76 o Ddeddf Ynni 2004 yn caniatáu i'r Llywodraeth weithredu'r newidiadau i'r Confensiynau yn Neddf 1965 drwy is-ddeddfwriaeth - Gorchymyn sy'n amodol ar gymeradwyaeth dau D•'r Senedd.

1.4 Mae'r diwygiadau a wnaed i'r Confensiynau yn 2004 yn perthyn i dri phrif faes: categorïau (penawdau) difrod, cwmpas daearyddol a lefelau atebolrwydd ariannol.

- **<u>Difrod</u>** - mae cwmpas y difrod y gellir hawlio iawndal ar ei gyfer wedi'i ymestyn. Yn ogystal ag anaf personol/marwolaeth a difrod i eiddo, bydd gweithredwyr niwclear bellach yn atebol am bedwar categori newydd o ddifrod, sef: (i) colled economaidd yn deillio o ddifrod i eiddo neu anaf personol; (ii) cost mesurau i adfer yr amgylchedd sydd wedi'i niweidio; (iii) yr incwm a gollir yn deillio o fudd economaidd uniongyrchol mewn unrhyw ddefnydd neu fwynhad o'r amgylchedd; a (iv) cost mesurau ataliol.
- **<u>Cwmpas daearyddol</u>** - mae cwmpas daearyddol Confensiwn Paris wedi'i ymestyn. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â sicrhau bod iawndal ar gael ar gyfer difrod a geir mewn gwledydd sydd wedi llofnodi Confensiwn Paris[2], y bydd angen sicrhau bod iawndal ar gael hefyd ar gyfer difrod a geir mewn gwledydd penodol nad ydynt wedi llofnodi Confensiwn Paris (yn benodol, y rhai heb osodiadau niwclear a'r rhai â chyfundrefnau atebolrwydd sy'n dwyn manteision cyfatebol).

---

[1] Gweler Atodiad C sy'n nodi teitlau llawn y Confensiwn, Protocolau diwygio, gwledydd sydd wedi llofnodi'r Confensiwn, a gwybodaeth am y broses gadarnhau.

[2] Gweler Atodiad C

Mae cwmpas daearyddol Confensiwn Brwsel yn fwy cyfyngedig - dim ond i'r difrod a geir yn y gwledydd sydd wedi llofnodi Confensiwn Brwsel y mae'n ymestyn ar y cyfan. Mae hyn yn golygu na all yr arian ychwanegol a neilltuir o dan gynllun Brwsel gael ei ddefnyddio i ddarparu iawndal ar gyfer difrod a geir mewn gwledydd sydd wedi llofnodi Confensiwn Paris nad ydynt wedi llofnodi Confensiwn Brwsel[3] a'r gwledydd nad ydynt wedi llofnodi Confensiwn Paris a nodwyd uchod.

- **<u>Lefelau atebolrwydd ariannol</u>** - mae'r arian sydd ar gael i dalu iawndal wedi'i gynyddu'n sylweddol o dan y gyfundrefn ddiwygiedig, o €300 miliwn ar hyn o bryd i €1500 miliwn. O fewn hyn, bydd yn ofynnol i weithredwyr ysgwyddo llawer mwy o gyfrifoldeb ariannol am ddigwyddiad niwclear oherwydd, o dan y newidiadau i Gonfensiwn Paris, mae'n ofynnol cynyddu eu lefelau atebolrwydd i o leiaf €700 miliwn fesul digwyddiad (sef cynnydd o gymharu â thua €150 miliwn). Yn ogystal, caniateir i wledydd sydd wedi llofnodi'r Confensiwn osod terfyn atebolrwydd uwch neu atebolrwydd diderfyn. Gallant hefyd bennu swm atebolrwydd is ar gyfer gosodiadau a gwaith cludo sylweddau niwclear lle y mae'n annhebygol y bydd difrod sylweddol, os ceir digwyddiad. Bydd yn ofynnol i weithredwyr roi yswiriant neu sicrwydd ariannol arall ar waith ar gyfer eu hatebolrwydd uwch.

1.5 Ymdrinnir â'r **categorïau o ddifrod** ym **Mhennod 4** o'r ymgynghoriad hwn; ymdrinnir â'r **cwmpas daearyddol** ym **Mhennod 5** ac ymdrinnir â'r **lefelau atebolrwydd ariannol** ym **Mhennod 8**.

1.6 Dull cyffredinol y Llywodraeth o weithredu'r categorïau newydd o ddifrod yw mabwysiadau'r geiriad a'r diffiniadau a ddefnyddir yn y Confensiwn heb ymhelaethu arnynt ymhellach, cyhyd ag y bo hyn yn bosibl ac yn synhwyrol. Mae hyn yn unol â'r dull gweithredu yn y gwledydd eraill sydd wedi llofnodi'r Confensiwn. Bydd yn helpu i osgoi achosion o danweithredu neu orweithredu diwygiadau'r Confensiwn a bydd yn sicrhau cysondeb yn rhyngwladol. Mae'r ffactorau hyn yn arbennig o bwysig o gofio natur gyfatebol y gyfundrefn a sefydlwyd gan y Confensiwn.

1.7 O ran lefelau atebolrwydd ariannol gweithredwyr, mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cynyddu o:

- £140 miliwn ar hyn o bryd (tua €160 miliwn) fesul digwyddiad i <u>€1200 miliwn</u> ar gyfer *gosodiadau safonol* megis gorsafoedd ynni niwclear. Caiff y lefel hon ei chyflwyno'n raddol dros bum mlynedd gan ddechrau ar lefel o €700 miliwn, o'r dyddiad y daw'r ddeddfwriaeth i rym, a chan gynyddu €100 miliwn bob blwyddyn nes ei bod yn cyrraedd €1200 miliwn;

- £10 miliwn ar hyn o bryd fesul digwyddiad i <u>€70 miliwn</u> ar gyfer gosodiadau risg isel fel y rhagnodir o dan y ddeddfwriaeth[4], megis adweithyddion ymchwil a chyfleusterau gwaredu niwclear;

1.8 Rydym hefyd yn bwriadu cymhwyso'r disgresiwn a ddarparwyd yng Nghonfensiwn Paris wedi'i ddiwygio i bennu atebolrwydd is (o <u>€80 miliwn</u>) ar gyfer cludo rhai deunyddiau niwclear sy'n annhebygol o achosi difrod trydydd parti ar raddfa fawr os ceir digwyddiad. Bydd gan achosion o gludo yr ystyrir nad ydynt yn risg is derfyn atebolrwydd o €1200 miliwn (wedi'i gyflwyno'n raddol yn yr un modd ag ar gyfer safleoedd safonol).

[3] Nid yw Gwlad Groeg, Portiwgal na Thwrci wedi llofnodi Confensiwn Atodol Brwsel.
[4] Rheoliadau Gosodiadau Niwclear (Safleoedd Rhagnodedig) 1983 (OS 1983/919)

## Crynodeb o'r penodau eraill

1.9 Crynhoir y penodau eraill isod:

- **Cyfnodau Cyfyngu** (Pennod 6): Yn nodi cyfnod cyfyngu gweithredwyr mewn perthynas â hawliadau am anaf personol, difrod i eiddo a'r categorïau newydd eraill o ddifrod. Yn unol â Chonfensiwn Paris, bwriadwn bennu cyfnod cyfyngu cyffredinol o 10 mlynedd o ddyddiad y digwyddiad ar gyfer difrod i eiddo a'r categorïau newydd o ddifrod. O ran anaf personol, bwriadwn ymestyn y cyfnod cyfyngu i 30 mlynedd fel sy'n ofynnol o dan y Confensiwn.

- **Atebolrwydd wrth Gludo** (Pennod 7): Yn nodi sut y bwriadwn weithredu newid i reolau Confensiwn Paris ar atebolrwydd gweithredwyr wrth gludo sylweddau niwclear. Mae'r newid hwn yn golygu mai dim ond pan fydd gan y gweithredwr sy'n derbyn y sylweddau fudd economaidd uniongyrchol yn y sylweddau niwclear a gaiff eu cludo y gellir trosglwyddo atebolrwydd o un gweithredwr o dan y Confensiwn i un arall.

- **Argaeledd yswiriant neu sicrwydd ariannol arall** (Pennod 9): Mae Confensiwn Paris yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gynnal yswiriant neu sicrwydd ariannol arall i ddarparu ar gyfer eu hatebolrwydd o dan y gyfundrefn. Bydd y gofyniad hwn yn parhau i fod yn gymwys o dan Ddeddf 1965 wedi'i diwygio. Mae'r farchnad yswiriant yn gallu darparu ar gyfer y rhan fwyaf o atebolrwydd sy'n deillio o'r categorïau newydd o ddifrod ond mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gall fod bylchau yn y ddarpariaeth lle y bydd yn rhaid i'r gweithredwr nodi ffynonellau amgen o sicrwydd ariannol. Felly, mae'r Llywodraeth yn annog y farchnad ariannol a gweithredwyr niwclear i gyflwyno cynigion i helpu i fodloni'r gofyniad hwn.

- **Awdurdodaeth** (Pennod 10): Mae'r newidiadau i Erthygl 13 o Gonfensiwn Paris yn diweddaru'r darpariaethau ar awdurdodaeth i ystyried parthau economaidd unigryw (EEZs) y partïon[5]. Maent hefyd yn nodi mai dim ond un llys mewn gwlad sydd wedi llofnodi'r Confensiwn a ddylai ymdrin â hawliadau sy'n deillio o ddigwyddiad niwclear penodol. Mae'r Bennod yn nodi sut y caiff y newidiadau hyn eu gweithredu yn y DU drwy drefniadau ar gyfer pennu awdurdodaeth o fewn y DU.

- **Cyfleusterau gwaredu** (Pennod 11): Mae Confensiwn Paris wedi'i ddiwygio bellach yn cynnwys cyfleusterau gwaredu gwastraff niwclear yn y diffiniad o "osodiad niwclear" ac felly yn y gyfundrefn atebolrwydd. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cynnwys cyfleusterau o'r fath yng nghyfundrefn atebolrwydd Deddf 1965 ond mae o'r farn mai dim ond i gyfleusterau gwaredu gwastraff niwclear sy'n achosi'r lefel o berygl y cynlluniwyd Confensiwn Paris i'w cwmpasu y dylai'r gyfundrefn atebolrwydd fod yn gymwys. Felly, mae'r Llywodraeth yn bwriadu gofyn am eithriad ar gyfer cyfleusterau gwaredu gwastraff niwclear lefel isel o Gonfensiwn Paris.

- **Camau cynrychioliadol** (Pennod 12): Mae Confensiwn Paris wedi'i ddiwygio bellach yn ei gwneud yn ofynnol i bob gwlad sydd wedi llofnodi'r Confensiwn sicrhau bod ei chyfreithiau yn caniatáu i wlad arall gyflwyno hawliadau camau cynrychioliadol ar ran ei phobl. Mae'r Bennod hon yn nodi sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu gweithredu'r gofyniad hwn yn y DU gan gynnwys y newidiadau angenrheidiol i reolau gweithdrefnau llys.

---

[5] Sefydlwyd o dan gyfraith forol ryngwladol.